Estyn

# Arweiniad i Arolygwyr

## Sut rydym ni'n arolygu

Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA)
O fis Hydref 2023




estyn.llyw.cymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad/y cyhoeddiad penodol.**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


Cyflwyniad **1**

Diben y llawlyfr arweiniad 'Sut rydym ni'n arolygu' 1

Y sail gyfreithiol ar gyfer arolygiadau addysg gychwynnol athrawon 1

Cefndir polisi 2

**Rhan 1: Trefniadau arolygu 3**

Cyflwyniad 3

Egwyddorion arolygu 3

Cod ymddygiad ar gyfer arolygwyr 4

Disgwyliadau o ran arolygwyr 5

Disgwyliadau o ran darparwyr 5

Disgwyliadau o ran partneriaethau 6

Diogelu, yn cynnwys materion iechyd, diogelwch a lles 6

Dull arolygu 7

Yr Ystafell Arolygu Rithwir 7

Y tîm arolygu 7

Cysylltu â'r bartneriaeth cyn yr arolygiad 8

Cynllunio'r arolygiad a pharatoi'r tîm 10

Yn ystod yr arolygiad 10

Ar ôl yr arolygiad 14

Y gwiriad cywirdeb ffeithiol 14

Sicrhau ansawdd arolygiadau 14

**Arweiniad ar weithgarwch dilynol 15**

**Arweiniad i arolygwyr ar osod partneriaeth addysg gychwynnol athrawon mewn categori gweithgarwch dilynol 16**

Cefndir 16

Arweiniad i arolygwyr am bartneriaethau y gallai fod angen eu hailarolygu 16

Gweithdrefnau i'w dilyn os bernir bod y bartneriaeth yn achosi pryder sylweddol 17

Arweiniad i arolygwyr am bartneriaethau y gallai fod angen ymgysylltu manylach arnynt 18

Gweithdrefnau i'w dilyn os oes angen ymgysylltu manylach gan Estyn ar y bartneriaeth 19

# Cyflwyniad

## Diben y llawlyfr arweiniad 'Sut rydym ni'n arolygu'

Mae'r llawlyfr hwn yn amlinellu'r broses arolygu ar gyfer arolygiadau Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) o fis Medi 2022. Mae'n esbonio **sut** rydym yn arolygu. Mae'r arweiniad yn ddeunydd darllen hanfodol ar gyfer arolygwyr cofnodol a phob aelod arall o'r tîm arolygu. Hefyd, gallai fod yn ddefnyddiol ar gyfer darparwyr i gefnogi eu dealltwriaeth o'r meddylfryd a'r methodolegau arolygu.

Dylid darllen yr arweiniad ochr yn ochr â 'Beth rydym ni'n ei arolygu', sy'n amlinellu'r fframwaith arolygu. Pan fydd yr arolygiad yn nodi arfer sy'n werth ei lledaenu, bydd arolygwyr yn gwahodd y bartneriaeth i ysgrifennu astudiaeth achos y byddwn yn ei rhannu ar ein gwefan. Pan fydd yr arolygiad yn nodi pryderon pwysig mewn perthynas â safonau, ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant neu arweinyddiaeth a rheolaeth, byddwn yn trefnu gweithgarwch dilynol i gefnogi gwelliant. Mae arweiniad ar y gwahanol fathau o weithgarwch dilynol ar gael ar dudalen 14 y llawlyfr hwn.

Ceir rhagor o wybodaeth am arolygiadau ar ein gwefan, sef www.estyn.llyw.cymru

## Y sail gyfreithiol ar gyfer arolygiadau addysg gychwynnol athrawon

O dan adran 18C Deddf Addysg 1994 (mewnosodwyd gan baragraff 13 Atodlen 14 i Ddeddf Addysg 2005), gallai Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant arolygu ac adrodd ar:

- unrhyw hyfforddiant cychwynnol i athrawon, cynorthwywyr addysgu arbenigol, ar gyfer darparwyr; neu
- unrhyw hyfforddiant mewn swydd i athrawon neu gynorthwywyr o'r fath, a ddarperir gan ddarparwr hyfforddiant yng Nghymru.

Mae ein gwaith arolygu yn ystyried deddfwriaeth sy'n llywodraethu'r arolygiaeth a'r darparwyr addysgol eu hunain hefyd, yn cynnwys Deddf yr Iaith Gymraeg, er enghraifft.

### Achredu partneriaethau sy'n darparu addysg gychwynnol athrawon

O dan Orchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Swyddogaethau Ychwanegol) 2017, mae gan Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA) gyfrifoldeb statudol am achredu pob rhaglen AGA yn unol â meini prawf a nodwyd gan Lywodraeth Cymru.[1] Mae gan Estyn rôl hanfodol bwysig yn cynnal a gwella ansawdd mewn AGA. Byddwn yn rhoi gwybod i CGA os bernir nad yw darpariaeth yn bodloni gofynion achredu. Mae gweithdrefnau ar gyfer achredu rhaglenni AGA newydd, monitro cydymffurfio rhaglenni achredig yn erbyn meini prawf Llywodraeth Cymru a thynnu achrediad yn ôl, ar gael gan CGA ar gais neu ar ei wefan (www.ewc.wales).

[1] Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Cymru) 2017

## Cefndir polisi

Er na chaiff ei reoli'n uniongyrchol gan y polisïau a'r confensiynau canlynol, mae'r llawlyfr arweiniad yn ystyried y canlynol:

- Adolygu hyfforddiant athrawon yng Nghymru, fel yr amlinellir yn 'Addysgu athrawon yfory' (Llywodraeth Cymru, Mawrth 2015) https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/addysgu-athrawon-yfory.pdf
- Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, Chwefror 2018) https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-09/meini-prawf-ar-gyfer-achredu-rhaglenni-addysg-gychwynnol-athrawon-yng-nghymru.pdf
- Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth (Llywodraeth Cymru, 2017)
- https://hwb.gov.wales/datblygiad-proffesiynol/safonau-proffesiynol
- Adolygu'r cwricwlwm mewn partneriaethau fel yr amlinellir yn 'Dyfodol Llwyddiannus' (Llywodraeth Cymru, Chwefror 2015)
- Cenhadaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg yng Nghymru rhwng 2017 a 2021 https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/addysg-yng-nghymru-cenhadaeth-ein-cenedl.pdf
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/01/wfg-essentials-guide-cy.pdf
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2004 fel y sylfaen i lunio polisïau ar gyfer plant a phobl ifanc http://www.ohchr.org/EN/ProfessionalInterest/Pages/CRC.aspx

# Rhan 1: Trefniadau arolygu

## Cyflwyniad

Mae'r adran hon wedi'i hamlinellu mewn ffordd sy'n adlewyrchu dilyniant y gwaith cyn, yn ystod ac ar ôl arolygiad craidd.

Mae'r arolygydd cofnodol yn gyfrifol am gynnal a rheoli'r arolygiad, ac am yr adroddiad arolygu. Er bod yr arweiniad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar rôl yr arolygydd cofnodol, rhaid i bob aelod o'r tîm gydymffurfio â'r un gofynion arolygu.

## Egwyddorion arolygu

Mae timau arolygu yn gweithio yn unol â nifer o egwyddorion. Maent:

- yn defnyddio dull arolygu sy'n cael ei arwain gan y dysgwr
- bob amser yn canolbwyntio'n gryf ar ansawdd ac effeithiolrwydd yr addysgu a'r dysgu
- yn ystyried popeth yn y dogfennau arweiniad 'beth' a 'sut' rydym ni'n arolygu, ond yn adrodd ar y cryfderau a'r gwendidau allweddol yn unig
- yn canolbwyntio ym mhob arolygiad ar y darparwr penodol, ac yn addasu eu dulliau yn unol â hynny
- yn defnyddio ystod o fethodolegau a dulliau arolygu teilwredig sy'n bwrpasol i amgylchiadau'r darparwr, er mwyn gwerthuso ehangder gwaith y darparwr yn drylwyr ac yn deg
- yn mabwysiadu dull adeiladol sy'n gwneud y rhyngweithio â'r darparwr yn brofiad dysgu proffesiynol ar gyfer eu staff a'r tîm arolygu cyfan

Yn ychwanegol, bydd arolygwyr:

- yn sicrhau bod arolygu yn ymatebol i anghenion pob dysgwr
- yn sicrhau bod gwerthusiadau yn gadarn, yn ddibynadwy, yn ddilys ac yn seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol
- yn cynnwys y darparwr yn llawn yn y broses arolygu, yn cynnwys y cyfle i'r darparwr ddewis enwebai
- yn defnyddio blaenoriaethau gwella'r darparwr fel y man cychwyn ar gyfer yr arolygiad ac i nodi meysydd allweddol i ymchwilio iddynt er mwyn gwneud gwerthusiadau ar ddilysrwydd y canfyddiadau
- yn cynnwys arolygwyr cymheiriaid yn y broses arolygu
- yn sicrhau cyn lleied ag y bo modd o ofynion i'w dogfennu a'u paratoi gan y darparwr
- yn cael safbwynt dysgwyr a rhanddeiliaid eraill
- yn cymhwyso egwyddor cydraddoldeb ar gyfer Cymraeg a Saesneg i'n holl waith arolygu.

## Y Meddylfryd Arolygu

Mae dull arolygu Estyn:

- **Yn deg a diduedd** – mae hyn yn golygu ein bod yn gweithio i fod yn annibynnol, yn wrthrychol ac yn gytbwys. Rydym yn drylwyr a chyson yn ein gwaith. Rydym yn pwysoli'r dystiolaeth a'i harwyddocâd i ddarparu barn onest, gredadwy a chywir am gryfderau'r darparwr a'i feysydd i'w gwella.
- **Yn gefnogol** – rydym yn gweithio i roi arweiniad i ddarparwyr i weithredu gwelliannau sydd o fudd i ddysgwyr. Rydym yn annog arloesi ac yn cydnabod bwriadau da. Rydym yn gyfeillgar ond bob amser yn broffesiynol o ran ein hymagwedd. Rydym yn cefnogi diwygio addysgol. Rydym yn gweithio'n galed i ddatblygu perthnasoedd ystyrlon gyda darparwyr a sefydliadau lleol a rhanbarthol.
- **Yn fyfyriol** – mae gennym ni feddwl agored. Rydym yn gwrando ar ystod eang o randdeiliaid ac yn myfyrio ar eu hymatebion. Rydym yn feddylgar, yn bwyllog ac yn ofalus. Rydym yn cynllunio cyfleoedd i feddwl yn ofalus am ganfyddiadau'r arolygiad a'u trafod gyda phobl eraill yn y tîm.
- **Yn dryloyw** – rydym yn wybodus ac yn cyfathrebu'n glir, yn uniongyrchol ac yn gryno. Rydym yn defnyddio methodolegau arolygu effeithlon ac effeithiol i ymateb i sefyllfa unigryw'r darparwr. Rydym yn cynllunio gweithgarwch arolygu ac yn adrodd ar gryfderau a gwendidau mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu amgylchiadau penodol pob darparwr unigol. O ganlyniad, mae ein gweithredoedd yn hyrwyddo ymddiriedaeth a pharch.

### Cod ymddygiad ar gyfer arolygwyr

Mae ein cod ymddygiad yn esbonio sut rydym yn ymgorffori'r meddylfryd arolygu trwy eu gweithredoedd. Dylai arolygwyr gynnal y safonau uchaf posibl yn eu gwaith. Rhaid i bob arolygydd fodloni safonau cod ymddygiad Estyn.

Wrth gynnal yr arolygiad, bydd arolygwyr:

- yn gwneud eu gwaith gydag uniondeb, cwrteisi a sensitifrwydd priodol
- yn gwerthuso gwaith y darparwr yn wrthrychol
- yn adrodd yn onest, yn deg ac yn ddiduedd
- yn cyfathrebu'n glir ac yn agored
- yn gweithredu er lles pennaf y dysgwyr
- yn parchu cyfrinachedd yr holl wybodaeth sy'n dod i law yn ystod eu gwaith

Mae'n bwysig ein bod yn gwerthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth o ran eu heffaith ac nid ar sail unrhyw ffafriaeth am ddulliau penodol. Yr allwedd i'r gwerthusiadau yw p'un a yw'r dulliau a'r drefniadaeth yn addas i'r diben o ran cynorthwyo pob athro dan hyfforddiant i gyflawni safonau uchel a lefelau lles cryf.

Dylai arolygwyr roi gwybod i Estyn am unrhyw achos canfyddedig neu wirioneddol o wrthdaro buddiannau cyn gynted ag y byddant yn cael hysbysiad eu bod yn rhan o dîm arolygu'r bartneriaeth.

## Disgwyliadau o ran arolygwyr

Mae ein disgwyliadau o ran arolygwyr yn esbonio sut rydym yn ymgorffori ein meddylfryd trwy ein gweithredoedd. Dylai arolygwyr gynnal y safonau uchaf posibl yn eu gwaith. Rhaid i bob arolygydd fodloni'r safonau disgwyliedig o ran ymddygiad.

Wrth ymgysylltu â darparwr, bydd arolygwyr:

- yn gwrtais ac yn broffesiynol
- yn sefydlu a chynnal ffiniau proffesiynol priodol wrth siarad â phlant ac oedolion
- yn gwneud eu gwaith ag uniondeb, parch a sensitifrwydd priodol
- yn cymryd yr holl gamau rhesymol i atal gorbryder gormodol a lleihau straen yn ystod gweithgarwch arolygu
- yn gwerthuso gwaith y darparwr yn wrthrychol gan ddefnyddio tystiolaeth glir a thrylwyr
- yn adrodd yn onest, yn deg ac yn ddiduedd heb ofn na ffafriaeth
- yn cyfathrebu'n glir ac yn agored
- yn gweithredu er lles pennaf y dysgwyr
- yn parchu cyfrinachedd yr holl wybodaeth sy'n dod i law yn ystod eu gwaith
- yn ymateb yn briodol i geisiadau rhesymol

Mae'n bwysig ein bod yn gwerthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth ar sail eu heffaith, ac nid ar sail unrhyw ffafriaethau am ddulliau penodol. Yr hyn sy'n allweddol i'n gwerthusiadau yw p'un a yw'r dulliau a'r drefniadaeth yn addas at y diben o ran cynorthwyo'r holl ddisgyblion i gyflawni safonau uchel a lefelau lles cryf.

Dylai arolygwyr roi gwybod i Estyn am unrhyw achosion canfyddedig neu wirioneddol o wrthdaro buddiannau pryd bynnag y maent yn derbyn hysbysiad am ymgysylltiad, er enghraifft eu bod yn rhan o dîm arolygu darparwr.

## Disgwyliadau o ran darparwyr

Er mwyn i arolygu a rheoleiddio fod yn adeiladol a buddiol, mae'n bwysig fod arolygwyr a darparwyr yn sefydlu a chynnal amgylchedd gweithio proffesiynol yn seiliedig ar gwrteisi, parch ac ymddygiad proffesiynol ar y ddwy ochr. Rydym yn disgwyl i arolygwyr gynnal ein Disgwyliadau o ran arolygwyr, ond rydym hefyd yn disgwyl i ddarparwyr:

- fod yn gwrtais ac yn broffesiynol, gan barchu arolygwyr a staff cymorth arolygu
- gweithredu er lles pennaf y dysgwyr
- darparu tystiolaeth – neu roi mynediad at dystiolaeth – sy'n galluogi arolygwyr i gynnal yr arolygiad mewn ffordd agored, onest a gwrthrychol
- cydnabod bod angen i arolygwyr arsylwi arfer a siarad â staff, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill heb i reolwr neu uwch arweinydd fod yn bresennol
- gweithio gydag arolygwyr i gymryd yr holl gamau rhesymol i leihau tarfu, straen a biwrocratiaeth i'r eithaf
- cynnal deialog bwrpasol gyda'r Arolygydd Cofnodol ac arolygwyr eraill
- tynnu sylw arolygwyr at unrhyw bryderon am yr arolygiad mewn modd amserol ac addas, trwy'r enwebai

- rhoi ystyriaeth briodol i iechyd a diogelwch a lles arolygwyr tra byddant ar y safle
- cynnal cyfrinachedd cyfarfodydd a chanfyddiadau arolygu hyd nes cyhoeddi'r adroddiad yn derfynol
- sicrhau bod timau arolygu yn cael mynediad i ardal breifat i drafod tystiolaeth arolygu a chynnal trafodaethau cyfrinachol

Dylid tynnu sylw'r tîm at unrhyw gamerâu cylch cyfyng ac offer recordio yn ystod y cyfarfod tîm cychwynnol.

Adeg yr hysbysiad am yr arolygiad, dylai ysgolion / UCDau adolygu cyfansoddiad y tîm arolygu. Cyfrifoldeb y darparwr yw amlygu unrhyw achosion canfyddedig neu wirioneddol o wrthdaro buddiannau cyn dechrau unrhyw ymgysylltiad, er enghraifft cyn eu harolygiad ar y safle neu ymweliad interim.

## Disgwyliadau o ran partneriaethau

Er mwyn i arolygu a rheoleiddio fod yn adeiladol ac yn fuddiol, mae'n bwysig bod arolygwyr a darparwyr yn sefydlu a chynnal amgylchedd gweithio proffesiynol yn seiliedig ar gwrteisi, parch ac ymddygiad proffesiynol y naill at y llall. Rydym yn disgwyl i arolygwyr gynnal Cod Ymddygiad Estyn, ond rydym hefyd yn disgwyl i ddarparwyr:

- fod yn gwrtais ac yn broffesiynol
- darparu tystiolaeth sy'n galluogi arolygwyr i gynnal yr arolygiad mewn ffordd agored, onest a gwrthrychol
- cynnal deialog bwrpasol gyda'r arolygydd cofnodol ac arolygwyr eraill
- cydnabod bod angen i arolygwyr arsylwi arfer a siarad â staff, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill heb fod rheolwr neu uwch arweinydd yn bresennol
- tynnu sylw'r arolygwyr at unrhyw bryderon am yr arolygiad mewn modd amserol ac addas trwy'r enwebai
- rhoi ystyriaeth briodol i iechyd a diogelwch arolygwyr tra byddant ar y safle
- cynnal cyfrinachedd cyfarfodydd a chanfyddiadau'r arolygiad hyd nes bod yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi'n derfynol

Adeg yr hysbysiad ynghylch yr arolygiad, dylai partneriaethau adolygu cyfansoddiad y tîm arolygu. Cyfrifoldeb y bartneriaeth yw amlygu unrhyw achos canfyddedig neu wirioneddol o wrthdaro buddiannau cyn dechrau eu harolygiad.

## Diogelu, yn cynnwys materion iechyd, diogelwch a lles

Bydd arolygwyr yn cynnal arolygiadau yn unol ag arweiniad Estyn ar arolygu diogelu. Os byddant yn sylwi ar unrhyw beth sydd, yn eu barn nhw, yn peryglu diogelwch staff, ymwelwyr neu ddisgyblion, dylai arolygwyr rybuddio rheolwyr yn y ddarpariaeth.

Os caiff arolygydd wybod am honiad / amheuaeth ynghylch diogelu sy'n ymwneud â phlentyn, unigolyn ifanc neu oedolyn bregus, dylai ddilyn y gweithdrefnau a amlinellir yn fersiwn bresennol '[Polisi a gweithdrefnau Estyn ar gyfer diogelu]', sydd ar gael ar ein gwefan.

Ym mhob achos, dylai arolygwyr gofnodi'r mater a'u bod wedi rhoi gwybod i reolwyr amdano. Dylai arolygwyr adrodd ar risgiau amlwg yn gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a lles o dan faes arolygu 4 (gofal, cymorth ac arweiniad). Lle bo'r risgiau hyn yn bryder difrifol, dylai arolygwyr gynnwys sylw byr yn nhestun yr adroddiad ac argymhelliad yn yr adroddiad. Byddwn yn anfon llythyr lles at y bartneriaeth yn gofyn iddynt amlinellu'r modd y byddant yn mynd i'r afael â'r diffyg.

## Dull arolygu

Y cynnydd a wna dysgwyr o'u mannau cychwyn a'r deilliannau a gyflawnir ganddynt yw mesurau allweddol ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant y maent wedi'u cael, ac effeithiolrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth y bartneriaeth. Bydd arolygiadau'n canolbwyntio ar anghenion myfyrwyr, eu hagweddau at ddysgu a'r effaith a gaiff y bartneriaeth ar gefnogi eu cynnydd a'r deilliannau a gyflawnir ganddynt.

Bydd nifer yr arolygwyr a nifer y diwrnodau y maent yn eu treulio yn y bartneriaeth yn amrywio yn ôl maint a chyd-destun y bartneriaeth.

Byddwn yn cynnal pob arolygiad yn unol â'n Polisi Iaith Gymraeg, sydd ar gael ar ein gwefan.

## Yr Ystafell Arolygu Rithwir

Byddwn yn defnyddio system electronig o'r enw'r 'Ystafell Arolygu Rithwir' (YAR) ar gyfer rheoli sawl agwedd ar yr arolygiad. System ar y we yw hon sy'n caniatáu i ddarparwyr lwytho gwybodaeth i fyny cyn yr arolygiad a lawrlwytho arweiniad oddi wrthym am y broses arolygu. Hefyd, yr YAR yw'r man lle gall arweinwyr ac enwebeion partneriaethau fynd at yr holiaduron ôl-arolygiad.

## Y tîm arolygu

Mae gwahanol rolau o fewn y tîm arolygu.

| Aelod o'r tîm | Esboniad | Rôl |
|---|---|---|
| Arolygydd Cofnodol (ACof), gellir cyfeirio ato hefyd fel yr arolygydd arweiniol | Bydd yr ACof ar gyfer arolygiad yn un o'r canlynol:<br><br>AEM (Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) – caiff AEM eu penodi gan y goron. Maent yn weision sifil a gyflogir yn uniongyrchol gan Estyn.<br><br>AY (Arolygydd Ychwanegol) – mae Arolygwyr Ychwanegol fel arfer yn ymuno ag Estyn dros dro, er enghraifft ar secondiad o ysgolion a darparwyr eraill | Mae'r ACof yn arwain ac yn rheoli'r tîm arolygu. Mae'n cysylltu â'r bartneriaeth a'r tîm cyn yr arolygiad, ac yn sicrhau ansawdd gwaith eu tîm. Yr ACof yw'r unigolyn cyfeirio cyntaf i bawb yn ystod y rhan ar y safle o'r broses arolygu |

| | | |
|---|---|---|
| Arolygwyr Tîm (AT) | Caiff nifer yr arolygwyr tîm eu pennu gan faint y darparwr. Gallai arolygwyr tîm fod yn AEM neu'n arolygwyr ychwanegol dan gontract sydd wedi cael eu hyfforddi gan Estyn. Mae pob arolygydd tîm yn meddu ar gymwysterau addas.<br>Gellir dynodi rôl 'dirprwy Arolygydd Cofnodol' i un aelod o'r tîm. Mae'r dirprwy Arolygydd Cofnodol yn cynorthwyo'r Arolygydd Cofnodol â chynllunio a chydlynu'r arolygiad a'r adborth dros dro a'r adborth terfynol i'r bartneriaeth. | Gallai arolygwyr tîm gymryd cyfrifoldeb am gasglu tystiolaeth i lywio gwerthusiad y tîm o wahanol agweddau ar yr arolygiad. Mae'r ACof yn cyfarwyddo ac yn rheoli gwaith yr arolygwyr tîm. |
| Arolygydd Cymheiriaid (AC) | Mae arolygydd cymheiriaid yn uwch arweinydd presennol o bartneriaeth arall sydd wedi cwblhau hyfforddiant ac asesiad Estyn ar gyfer arolygwyr cymheiriaid. Mae gan bob tîm arolygu o leiaf un arolygydd cymheiriaid sy'n aelod o'r tîm. Gall swyddogion consortia ymuno â thimau arolygu yn y rôl hon hefyd. | Mae arolygwyr cymheiriaid yn cymryd cyfrifoldeb am gasglu tystiolaeth i lywio gwerthusiadau'r tîm hefyd. Maent yn rhan annatod o'r tîm arolygu. Mae'r ACof yn cyfarwyddo ac yn rheoli gwaith arolygwyr cymheiriaid. |
| Enwebai (o'r darparwr sy'n cael ei arolygu) | Byddwn yn gwahodd partneriaethau i ddewis uwch aelod o staff, o'r enw'r enwebai, i weithio gyda'r tîm arolygu. Yn ymarferol, mae bron pob partneriaeth yn derbyn y gwahoddiad, ond nid yw'n ofyniad. Dylai fod gan yr enwebai hynafedd digonol i weithredu fel unigolyn cyswllt rhwng y bartneriaeth a'r tîm arolygu. | Gall partneriaethau fynd at yr arweiniad i enwebeion ar baratoi ar gyfer yr arolygiad o ddolenni o fewn y ffurflen cyswllt cychwynnol (FfCC), sy'n cael ei llenwi gan y Cydlynydd Arolygu (CydAr) ac sydd ar gael trwy'r YAR. |

## Cysylltu â'r bartneriaeth cyn yr arolygiad

Bydd y bartneriaeth yn cael hysbysiad ffurfiol am yr arolygiad wyth wythnos cyn dechrau'r arolygiad. I sicrhau bod arolygwyr yn gallu defnyddio staff yn briodol ar gyfer y rhannau o'r arolygiad yn y brifysgol ac yn yr ysgol, byddwn yn gofyn i bob partneriaeth roi eu hamserlenni dros dro i ni ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf yn nhymor yr haf.

Ar ôl hyn, bydd y cydlynydd arolygu yn ffonio'r bartneriaeth i wneud y trefniadau ar gyfer yr arolygiad. Yn ystod y drafodaeth hon, bydd y cydlynydd arolygu:

- yn esbonio diben yr arolygiad ac yn trafod rhaglen amlinellol ar gyfer yr arolygiad
- yn trafod y wybodaeth benodol sydd ei hangen cyn yr arolygiad, gan gynnwys

ffurflen hunanwerthuso wedi ei llenwi gan y bartneriaeth ar ei darpariaeth ar gyfer diogelu, ac yn gwneud y trefniadau ar gyfer ei chael ar ffurf electronig drwy gyfrwng yr Ystafell Arolygu Rithwir

- yn gofyn a oes unrhyw faterion neu risgiau y dylai'r tîm fod yn ymwybodol ohonynt, ac yn gofyn am sesiwn friffio gyffredinol ynghylch iechyd a diogelwch i'r tîm ar ddechrau'r arolygiad
- yn pennu a yw'r bartneriaeth yn dymuno cael enwebai, ac os felly, yn cytuno ar rôl yr enwebai ac esbonio'r broses ar gyfer cwblhau arweiniad yr enwebai
- yn trafod y dolenni ac arweiniad ar gyfer llenwi'r gyfres o holiaduron cyn-arolygiad ar-lein (e.e. myfyrwyr, staff, ac ati)
- yn trefnu i Is-Ganghellor/Is-Gangellorion y brifysgol neu'r prifysgolion yn y bartneriaeth gyfarfod â'r tîm arolygu
- yn sicrhau bod gweithdrefnau cytûn ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu gŵynion a allai godi yn ystod yr arolygiad
- yn gwneud unrhyw drefniadau domestig, er enghraifft ystafell ar gyfer yr arolygwyr, parcio a mynediad i'r rhyngrwyd
- yn gwneud trefniadau ar gyfer adrodd yn ôl ynghylch canfyddiadau'r arolygiad
- yn cytuno ar y trefniadau ar gyfer llenwi'r holiadur ôl-arolygiad (HOA)
- yn rhoi gwybod i'r bartneriaeth yn ysgrifenedig, trwy'r ffurflen cyswllt cychwynnol, am y trefniadau arolygu allweddol

Bydd y cydlynydd arolygu yn gofyn am y wybodaeth ganlynol gan y bartneriaeth trwy'r Ystafell Arolygu Rithwir cyn gynted ag y bo modd yn dilyn yr hysbysiad ffurfiol am yr arolygiad:

- gwybodaeth gefndir allweddol, e.e. enwau'r staff a gwybodaeth am eu rolau a'u cyfrifoldebau
- copi o'r cynllun datblygu ansawdd neu'r cynllun gwella diweddaraf
- manylion am yr amserlenni am gyfnodau'r arolygiad
- copi o unrhyw wybodaeth ddiweddar am y SAU(au) yn y bartneriaeth sydd ar gael gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA)
- manylion am amserlenni'r bartneriaeth yn y brifysgol ac yn yr ysgol sydd wedi eu cadarnhau ar gyfer cyfnod yr arolygiad.

Gallai arolygwyr ofyn i'r bartneriaeth drefnu bod samplau o waith myfyrwyr o'r flwyddyn flaenorol ar gael yn ystod yr arolygiad.

Pan fyddwn yn rhoi gwybod i bartneriaethau am yr arolygiad, byddant yn cael gwybodaeth am ba bryd a sut i fynd at holiadur ar-lein ar gyfer athrawon dan hyfforddiant a rhanddeiliaid eraill. Bydd canlyniadau'r holiaduron cyn-arolygiad yn ffurfio rhan o dystiolaeth yr arolygiad ac yn cynorthwyo arolygwyr i ffurfio eu gwerthusiadau o waith y bartneriaeth.

Yn ystod yr arolygiad, gallai arolygwyr gyfweld â sampl o athrawon dan hyfforddiant sydd â rolau arweinyddiaeth neu rolau cynrychioliadol, grwpiau penodol eraill o athrawon dan hyfforddiant a sampl o diwtoriaid, mentoriaid neu aelodau staff eraill sy'n ymwneud â chyflwyno'r rhaglen fel rhan o'u proses i gasglu tystiolaeth.

Yn ychwanegol, gallai arolygwyr ddefnyddio gwybodaeth o Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr (NSS) neu arolygon eraill a gynhaliwyd gan y bartneriaeth AGA fel rhan o'u gweithdrefnau arferol.

## Cynllunio'r arolygiad a pharatoi'r tîm

Yn fuan ar ôl rhoi gwybod am yr arolygiad, bydd yr arolygydd cofnodol yn cysylltu â'r bartneriaeth i drefnu cyfarfod cyn-arolygiad. Diben y cyfarfod hwn yw trafod y trefniadau ar gyfer pob cam o'r arolygiad.

Yna, bydd yr arolygydd cofnodol yn cynllunio'r arolygiad ac yn dyrannu cyfrifoldebau i aelodau o'r tîm arolygu, gan ystyried blaenoriaethau gwella'r bartneriaeth ac unrhyw wybodaeth arall.

Bydd yr arolygydd cofnodol yn defnyddio'r wybodaeth cyn yr arolygiad i arwain gweithgarwch arolygu cychwynnol y tîm. Bydd yr arolygydd cofnodol yn briffio'r tîm wedi iddynt gyrraedd. Bydd yr arolygiaeth yn ystyried unrhyw dystiolaeth gan y QAA neu CGA lle mae hyn ar gael ac yn berthnasol i'r arolygiad.

Mae arolygiadau'n cynnwys arsylwi addysgu athrawon dan hyfforddiant. Bydd arolygwyr yn craffu ar gynlluniau ac asesiadau athrawon dan hyfforddiant, yn ogystal. Hefyd, mae arolygiadau yn cynnwys arsylwi'r addysgu a ddarperir gan diwtoriaid prifysgolion a mentoriaid ysgolion, a gwaith arall gydag athrawon dan hyfforddiant. Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i bartneriaethau roi cynllun llawn o'r holl weithgareddau yn ystod wythnosau'r arolygiad yn yr YAR, ar gyfer yr holl raglenni a holl flynyddoedd academaidd rhaglen. Bydd yr arolygydd cofnodol yn cynllunio'r arsylwadau addysgu a dysgu, a chraffu ar waith athrawon dan hyfforddiant, ar sail y wybodaeth a ddarparwyd. Hefyd, gallai arolygwyr ddewis grŵp o athrawon dan hyfforddiant i'w olrhain yn ystod yr arolygiad. Bydd y sampl yn adlewyrchu ystod gwaith y bartneriaeth ac yn cefnogi ymchwilio i gwestiynau a meysydd o ddiddordeb sy'n dod i'r amlwg a awgrymwyd gan waith arolygu cychwynnol a pharhaus arolygwyr.

Ni fydd arolygwyr fel arfer yn arsylwi athrawon dan hyfforddiant y bernir yn ystod eu profiad ysgol olaf eu bod yn debygol o fethu eu rhaglen. Fodd bynnag, bydd angen i'r bartneriaeth ddangos tystiolaeth i arolygwyr o sut maen nhw wedi monitro cynnydd yr athrawon dan hyfforddiant a'r cymorth y maent wedi ei ddarparu i helpu'r athrawon dan hyfforddiant i wella.

## Yn ystod yr arolygiad

### Cyfarfod tîm cychwynnol

Mae'r cyfarfod tîm cychwynnol yn debygol o gynnwys:

- brîff iechyd a diogelwch gan y bartneriaeth
- brîff gan arweinwyr y bartneriaeth am gyd-destun y bartneriaeth, yn cynnwys effaith y pandemig
- datganiad sefyllfa bras gan arweinwyr y bartneriaeth i amlinellu blaenoriaethau strategol y bartneriaeth a'i cham datblygu presennol
- trafodaeth gydag arweinwyr y bartneriaeth (dan arweiniad yr ACof) am y blaenoriaethau gwella a nodwyd gan y bartneriaeth a'r cynnydd hyd yma yn ei gwaith gwella
- trafodaeth ynglŷn â sut bydd arolygwyr yn gallu mynd at wybodaeth bwysig, er enghraifft cofnodion cyfarfodydd arweinyddiaeth, neu gynllunio ac asesiadau myfyrwyr

Bydd yr ACof yn cadarnhau'r trefniadau hyn gyda'r bartneriaeth yn ystod yr alwad ffôn cyn yr arolygiad.

### Casglu ac adolygu tystiolaeth arolygu

Bydd y tîm yn cynllunio'r arolygiad fel y gallant fynd i'r afael â'r gofynion adrodd yn y pum maes arolygu. Dyma'r prif fathau o dystiolaeth:

- samplau o waith athrawon dan hyfforddiant
- trafodaethau â myfyrwyr, tiwtoriaid a mentoriaid prifysgolion ac ysgolion, arweinwyr, rheolwyr, penaethiaid, uwch staff prifysgolion, a phobl eraill
- arsylwi gweithgareddau addysgu a gweithgareddau eraill, yn cynnwys tystiolaeth a gesglir trwy deithiau dysgu
- ymatebion i holiaduron
- tystiolaeth ddogfennol neu electronig, yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad a chynnydd myfyrwyr
- gwybodaeth o adroddiadau sicrhau ansawdd mewnol ac allanol, yn cynnwys y rhai gan arholwyr allanol, CGA a'r QAA, lle bo'n briodol

Bydd y tîm yn defnyddio arsylwadau uniongyrchol o waith athrawon dan hyfforddiant, ble bynnag y bo modd, i gasglu tystiolaeth i gefnogi eu gwerthusiadau. Gallai arolygwyr ddewis sampl ychwanegol o waith myfyrwyr, os oes angen, i gefnogi eu gwerthusiadau o agwedd benodol.

Dylai partneriaethau drefnu bod gwybodaeth ar gael i'r tîm arolygu am y safonau a gyflawnir gan athrawon dan hyfforddiant, yn enwedig canlyniadau unrhyw brofion sgrinio cychwynnol, archwiliadau ac asesiadau perthnasol eraill. Bydd hyn yn ein helpu i werthuso cynnydd myfyrwyr, er mwyn llunio safbwynt am y safonau y mae myfyrwyr yn eu cyflawni o gymharu â'u mannau cychwyn a'r ffordd y mae staff yn defnyddio'r wybodaeth o asesiadau i ddylanwadu ar eu cynllunio, addysgu a mentora.

Bydd angen i'r tîm ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid am y bartneriaeth a phrofi dilysrwydd y safbwyntiau hynny yn ystod yr arolygiad. Mae llais y dysgwr yn ffynhonnell allweddol o dystiolaeth ar gyfer arolygwyr. Bydd trafodaethau gydag athrawon dan hyfforddiant yn gyfle i archwilio gwybodaeth a dealltwriaeth myfyrwyr o'u gwaith. Bydd hefyd yn helpu arolygwyr i bwyso a mesur pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn cefnogi athrawon dan hyfforddiant ac yn cyfrannu at eu cynnydd a'u lles.

Mewn arolygiadau addysg gychwynnol athrawon, mae'n bwysig bod yr arolygydd cofnodol yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gydag uwch arweinwyr addysg gychwynnol athrawon i egluro materion arolygu a chanfyddiadau bras y tîm arolygu sy'n dod i'r amlwg.

### Cofnodi tystiolaeth arolygu

Bydd arolygwyr yn llenwi eu ffurflenni tystiolaeth yn electronig fel rhan o system ddigidol Estyn ar gyfer casglu, coladu a chofnodi canfyddiadau arolygu.

### Cyfarfodydd tîm

Prif ddiben cyfarfodydd tîm yw llunio safbwynt cywir, dibynadwy, dilys a

chorfforaethol am ddysgu ac ansawdd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth. Bydd cyfarfodydd yn cynnig cyfleoedd i arolygwyr:

- brofi dilysrwydd prosesau hunanwerthuso'r bartneriaeth a'i blaenoriaethau ar gyfer gwella
- trafod materion sy'n dod i'r amlwg
- nodi unrhyw fylchau yn sail y dystiolaeth
- ystyried prif ganfyddiadau'r arolygiad ac unrhyw argymhellion

**Deialog broffesiynol**

Trwy gydol yr arolygiad, bydd arolygwyr yn ymgymryd â deialog broffesiynol gydag ymarferwyr. Gallai'r ddeialog hon gynnwys cyfarfod â thiwtoriaid a mentoriaid unigol i drafod eu cynllunio a'r ffordd y maent yn asesu cynnydd myfyrwyr. Gallai arolygwyr fod eisiau cyfarfod â grwpiau o staff o'r gwasanaethau cymorth sy'n helpu myfyrwyr â'u hanghenion dysgu. Gallai arolygwyr benderfynu cyfarfod ag arweinwyr, naill ai'n unigol neu fel grŵp, i ddeall effaith arweinyddiaeth y bartneriaeth ar ysgogi gwelliannau i ddeilliannau myfyrwyr. Gallent wneud trefniadau i siarad ag uwch arweinwyr y sefydliadau partner, Is-Ganghellor/Is-Gangellorion y brifysgol neu'r prifysgolion, penaethiaid, neu reolwyr gyfarwyddwyr consortia am eu safbwyntiau ar y bartneriaeth, a'u chymorth ar ei chyfer. Mae deialog broffesiynol yn galluogi arolygwyr i gael tystiolaeth uniongyrchol gan ymarferwyr y gellir ei thriongli â ffynonellau tystiolaeth eraill. Bydd y ddeialog yn darparu canfyddiadau dros dro, sy'n dod i'r amlwg ar un agwedd ar sail y dystiolaeth. Gellir diwygio'r canfyddiadau hyn, ar ôl myfyrio arnynt, er enghraifft ar ôl craffu ar waith myfyrwyr neu siarad â myfyrwyr, neu o ganlyniad i gymedroli o fewn y tîm.

Fel arfer, ar ôl arsylwi sesiwn wedi'i haddysgu, bydd arolygwyr yn cael deialog broffesiynol fer gydag aelod o staff ar y dysgu a welwyd. Gallai fod yn angenrheidiol cynnal y drafodaeth hon yn ddiweddarach yn ystod yr arolygiad, mewn rhai achosion.

Dylai prif ffocws y ddeialog broffesiynol fod bob amser ar y myfyrwyr, y cynnydd a wnânt yn ystod y sesiwn a'r safonau maent yn eu cyflawni. Dylai arolygwyr geisio canolbwyntio ar unrhyw gryfderau neu feysydd i'w datblygu o ran y gwaith penodol a welwyd.

O ganlyniad i natur teithiau dysgu, sydd â ffocws craff, a lledaenu'r gweithgarwch ar draws nifer o sesiynau mewn cyfnod cymharol fyr, ni fydd modd i arolygwyr gynnig deialog broffesiynol i staff na myfyrwyr unigol ar ôl gweithgarwch taith ddysgu.

Mae'n rhesymol i athrawon dan hyfforddiant ddisgwyl i arolygwyr gael trafodaeth broffesiynol fer ar ôl arsylwi eu haddysgu. Rhaid i arolygwyr gofio nad ydynt yn arolygu'r athro dan hyfforddiant ar wahân, ond fel rhan o'r dystiolaeth o allu'r bartneriaeth addysg gychwynnol athrawon i gynnig darpariaeth o ansawdd da. Dylai'r athro dan hyfforddiant gael y ddeialog broffesiynol hon gyda'r athro dan hyfforddiant ar ôl iddynt arsylwi'r mentor neu'r tiwtor yn adrodd yn ôl, cyhyd ag y bo modd. Ni ddylai'r arolygydd drafod unrhyw farnau gyda'r athro dan hyfforddiant na staff y bartneriaeth, ond canolbwyntio ar gryfderau a meysydd i'w gwella. Dylai'r arolygydd bwysleisio i'r myfyriwr fod eu harsylwadau am addysgu myfyrwyr yn gyffredinol, ac na fyddant yn cael unrhyw effaith ar eu cynnydd unigol ar eu rhaglen.

## Adborth dros dro

Ar ddiwedd pob rhan o'r arolygiad, bydd yr arolygydd cofnodol yn trefnu darparu adborth dros dro yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg gan y tîm i uwch arweinwyr y bartneriaeth.

## Adborth ffurfiol

Ar ddiwedd yr arolygiad, bydd y tîm yn rhoi adborth llafar i arweinwyr a rheolwyr. Dylai'r cyfarfod hwn gynnwys cynrychiolwyr yr uwch arweinyddiaeth o'r SAU/au, ysgolion arweiniol ac unrhyw sefydliadau partner eraill. Gallai fod cynrychiolaeth o'r corff athrawon dan hyfforddiant, yn ôl disgresiwn y bartneriaeth. Bydd Estyn yn gwahodd cynrychiolydd o CGA i fynychu'r cyfarfod adborth terfynol.

Dylai'r adborth ganolbwyntio ar brif ganfyddiadau'r arolygiad, yn cynnwys yr argymhellion, a phrif werthusiadau pob un o'r pum maes arolygu.

Mae'r cyfarfod adborth yn rhoi cyfle i arweinwyr a rheolwyr glywed canfyddiadau'r tîm a myfyrio arnynt. Dylai'r adborth ganolbwyntio ar y cryfderau a'r meysydd i'w gwella a'r ffactorau sy'n cyfrannu atynt. Dylai'r arolygydd cofnodol esbonio i'r bartneriaeth y gellir codi a thrafod materion, a gellir cywiro materion ffeithiol. Diben y cyfarfod yw i'r bartneriaeth ddeall canfyddiadau'r tîm arolygu yn hytrach na'u trafod.

Yn ystod yr arolygiad, bydd y tîm yn ystyried a oes yna unrhyw arfer effeithiol sy'n werth ei rhannu â darparwyr eraill. Yn yr achos hwn, bydd yr arolygydd cofnodol yn gofyn i'r bartneriaeth baratoi astudiaeth achos (neu astudiaethau – dim mwy na dwy) i'w lledaenu ar ein gwefan.

Yn ystod pob arolygiad craidd, bydd y tîm arolygu yn ystyried a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar y bartneriaeth. Bydd yr arolygydd cofnodol yn rhoi gwybod i arweinwyr os oes angen unrhyw weithgarwch dilynol.

Mae'r holl werthusiadau a chanfyddiadau a adroddir yn ystod arolygiad, yn cynnwys lefel y gweithgarwch dilynol os yw'n briodol, yn rhai dros dro ac yn amodol ar gael eu safoni a'u dilysu gan PAEM. Maent yn gyfrinachol i staff y bartneriaeth ac uwch reolwyr sefydliadau partner. Ni ddylid eu cyfleu y tu hwnt i'r grŵp hwn, gan gynnwys trwy gyfryngau cymdeithasol, hyd nes i ni gyhoeddi'r adroddiad ar ein gwefan.

## Cwynion am y dull o gynnal yr arolygiad

Os bydd unrhyw faterion yn codi ynglŷn â'r dull o gynnal yr arolygiad yn gyffredinol neu ymddygiad arolygwyr unigol, yna dylai'r enwebai godi'r materion hyn gyda'r arolygydd cofnodol yn uniongyrchol, a chyn gynted ag y bo modd. Ni ddylai'r enwebai aros tan ar ôl yr arolygiad, dylai godi unrhyw faterion tra bydd y tîm ar y safle. Mewn amgylchiadau eithriadol, gallai'r bartneriaeth benderfynu cysylltu ag Estyn yn uniongyrchol, trwy'r cydlynydd arolygu, er mwyn siarad ag uwch reolwr. Mae materion yn codi o bryd i'w gilydd o ganlyniad i gamddealltwriaeth, ac fel arfer, gellir datrys y rhain yn gyflym ac yn foddhaol, yn fuan wedi iddynt ddigwydd.

Ceir arweiniad ar ein gweithdrefnau delio â chwynion ar ein gwefan.

## Ar ôl yr arolygiad

### Yr adroddiad arolygu

Mae'r arolygydd cofnodol yn gyfrifol am lunio adroddiad arolygu terfynol sy'n glir i gynulleidfa leyg ac yn ddefnyddiol i'r bartneriaeth.

Pan fyddant yn ysgrifennu adroddiadau, dylai arolygwyr ystyried arweiniad ysgrifennu Estyn sydd ar gael ar ein gwefan, sef www.estyn.llyw.cymru.

Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau yn ddwyieithog lle mae partneriaethau wedi gofyn am hyn, yn unol â'n Polisi Iaith Gymraeg.

Rydym yn seilio strwythur yr adroddiad arolygu ar ein fframwaith arolygu a bydd yr adroddiad ar y ffurf ganlynol:

**Ynglŷn â'r bartneriaeth a'i rhaglen/rhaglenni**

**Crynodeb**

**Argymhellion**

**Beth sy'n digwydd nesaf**

**Prif werthusiadau**

1 Dysgu
2 Lles ac agweddau at ddysgu
3 Addysgu a phrofiadau dysgu
4 Gofal, cymorth ac arweiniad
5 Arweinyddiaeth a rheolaeth

**Sail dystiolaeth yr arolygiad**

Byddwn yn llunio'r adroddiad o fewn graddfeydd amser statudol.

## Y gwiriad cywirdeb ffeithiol

Byddwn yn rhoi drafft hwyr o'r adroddiad i'r bartneriaeth er mwyn helpu i wirio cywirdeb ffeithiol y cynnwys. Gan amlaf, bydd gan y bartneriaeth bum niwrnod gwaith i ystyried yr adroddiad drafft a nodi unrhyw gamgymeriadau.

Mae'r gwiriad cywirdeb ffeithiol yn canolbwyntio ar ddatrys unrhyw anghywirdeb ffeithiol yn yr adroddiad arolygu. Nid yw'n canolbwyntio ar y canfyddiadau. Ceir arweiniad pellach i ddarparwyr ar natur a chwmpas y gwiriad hwn ar ein gwefan.

## Sicrhau ansawdd arolygiadau

Rydym wedi ymrwymo i:

- ddewis, hyfforddi, briffio, cefnogi a defnyddio arolygwyr yn effeithiol, gan gynnwys arolygwyr cymheiriaid

- hyfforddiant, briffio a chymorth effeithiol i alluogi'r enwebai i ymgymryd â rôl weithredol
- deialog reolaidd gydag arweinwyr y bartneriaeth yn ystod arolygiad
- meini prawf a systemau cofnodi sy'n cydymffurfio â'r arweiniad arolygu
- adolygu a dadansoddi tystiolaeth yn ofalus
- darparu adborth llafar clir am brif ganfyddiadau'r tîm a'r manylion ar gyfer pob maes arolygu
- llunio adroddiadau cywir ac wedi'u llunio'n dda

Fel rhan o'n gweithdrefnau sicrhau ansawdd, rydym yn gwahodd partneriaethau i lenwi holiadur ôl-arolygiad (HOA). Bydd yr holiadur ar gael yn yr YAR. Dylai partneriaethau lenwi rhan gyntaf yr holiadur cyn gynted ag y bo modd ar ôl yr arolygiad ar y safle, a'i gyflwyno'n electronig i Estyn drwy system yr YAR. Gallant lenwi ail ran yr holiadur ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu, eto drwy system yr YAR.

Yr arolygydd cofnodol fydd yn sicrhau ansawdd y gwaith y tîm arolygu yn y lle cyntaf. Rydym yn sicrhau ansawdd sampl o arolygiadau trwy ymweliadau ar y safle ac yn sicrhau ansawdd pob adroddiad arolygu ysgrifenedig cyn ei gyhoeddi ar ein gwefan. Mae ein trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd arolygiadau ar gael ar ein gwefan, sef www.estyn.llyw.cymru.

## Arweiniad ar weithgarwch dilynol

Mae'r arweiniad hwn yn nodi'r camau y dylai timau arolygu mewn addysg gychwynnol athrawon eu cymryd i'w helpu i nodi'r lefel fwyaf priodol o weithgarwch dilynol. Bydd yn ddefnyddiol i bartneriaethau ddeall y gweithdrefnau hyn a'r ffactorau y bydd timau arolygu yn eu hystyried wrth benderfynu ar y lefel fwyaf priodol o weithgarwch dilynol.

Mae'r arweiniad hwn yn hyblyg gan fod angen i ni fod yn ymatebol i'r amrywiaeth eang o sefyllfaoedd sy'n digwydd mewn partneriaethau wrth iddynt wella ar ôl arolygiadau craidd. Rydym yn cadw'r hawl i addasu'r arweiniad i ddiwallu anghenion partneriaethau unigol.

# Arweiniad i arolygwyr ar osod partneriaeth addysg gychwynnol athrawon mewn categori gweithgarwch dilynol

## Cefndir

Yn ystod pob arolygiad craidd, bydd y tîm arolygu yn ystyried p'un a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar y bartneriaeth.

Mae dau fath o weithgarwch dilynol, sef:

1. **Yn achosi pryder sylweddol ac angen ailarolygiad**
2. **Ymgysylltu manylach gan Estyn**

Mae'r gweithgarwch yn cynnwys lefelau cynyddol o ymyrraeth yn gymesur ag angen. Bydd natur y gweithgarwch dilynol yn amrywio yn ôl cyd-destun y bartneriaeth ac yn dibynnu ar yr agweddau ar waith y bartneriaeth y mae angen eu gwella. Dylid defnyddio'r wybodaeth ganlynol fel canllaw.

Mae'r un prosesau sicrhau ansawdd yn berthnasol i waith dilynol ag i arolygiadau craidd. Yr unig farn a adroddir yn ystod unrhyw ymweliad monitro yw p'un a yw partneriaeth yn parhau i fod angen gweithgarwch dilynol. Mae'r penderfyniad hwn dros dro ac yn amodol ar ei safoni gan PAEM. Mae'n gyfrinachol i'r bartneriaeth hyd nes cyhoeddi'r adroddiad.

### 1. Yn achosi pryder sylweddol ac angen ailarolygiad

## Arweiniad i arolygwyr am bartneriaethau y gallai fod angen eu hailarolygu

Yn ystod pob arolygiad, bydd y tîm arolygu yn ystyried p'un a yw'r bartneriaeth yn achosi pryder sylweddol.

Y rhesymau posibl dros nodi bod partneriaeth yn achosi pryder sylweddol yw:

- bod cyfran uchel o fyfyrwyr yn tangyflawni neu fod dirywiad sylweddol mewn cyflawniad dros gyfnod
- agweddau ar ddarpariaeth nad ydynt yn galluogi myfyrwyr i fodloni gofynion SAC yn llwyddiannus
- materion pwysig a godwyd gan fyfyrwyr am ddiffygion mewn darpariaeth neu arweinyddiaeth nad aethpwyd i'r afael â nhw
- cyfran sylweddol o addysgu neu fentora gwan
- methiant i fynd i'r afael â diffygion a nodwyd yn ystod arolygiadau blaenorol neu drwy weithgarwch mewnol neu allanol arall
- gwendidau pwysig mewn arweinyddiaeth
- unrhyw bryderon eraill sy'n risg sylweddol i les neu gyflawniad myfyrwyr, plant neu bobl ifanc

Rhaid i'r tîm arolygu adrodd fel maent yn gweld, a gallu cyfiawnhau eu barnau ar sail tystiolaeth gadarn. Os yw'r dystiolaeth yn pwyntio at y casgliad fod y bartneriaeth yn achosi pryder sylweddol, rhaid i arolygwyr lunio'r farn honno.

Dylai arolygwyr gofio bob amser fod y prif bwyslais mewn arolygiadau addysg gychwynnol athrawon ar y cynnydd a wna athrawon dan hyfforddiant, y deilliannau y maent yn eu cyflawni, ac ansawdd eu lles. Dylid rhoi pwysigrwydd i drafod y materion mewn cyfarfodydd tîm. Os oes gwendidau sylweddol yn y deilliannau y mae myfyrwyr yn eu cyflawni, dylai arolygwyr ystyried yn ofalus ansawdd y profiadau dysgu ac effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd arweinwyr.

Wrth farnu i ba raddau y mae gan uwch arweinwyr y gallu i ysgogi gwelliannau, bydd angen i arolygwyr roi sylw i ba mor dda y mae'r arweinwyr hyn yn gwybod ac yn deall cryfderau a gwendidau'r bartneriaeth. Dylent werthuso pa mor dda y mae arweinwyr y bartneriaeth yn defnyddio'r wybodaeth o brosesau hunanwerthuso i wneud penderfyniadau effeithiol a phriodol. Hefyd, dylai arolygwyr bennu a yw uwch arweinwyr yn dangos y gallu i fynd i'r afael â'r gwendidau trwy'r synnwyr o ddiben a chyfeiriad y maent yn ei ddarparu, a thrwy benderfyniadau a wneir a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â phryderon. Dylai trafodaethau ag uwch arweinwyr ddarparu tystiolaeth o sut maent yn mynd i'r afael â'r materion hyn, ac a ydynt yn rhoi sylw i'r pethau cywir.

Dylai uwch arweinwyr allu dangos eu bod yn gwybod pa ansawdd gwaith y maent yn ei ddisgwyl gan athrawon dan hyfforddiant a'r rhai y maent yn eu rheoli, a gallu cyfleu'r disgwyliadau hyn i gydweithwyr.

Yn yr holl amgylchiadau, mae'n hanfodol fod arolygwyr yn gwerthuso gwaith y bartneriaeth yn y cyd-destun y mae'n gweithredu ynddo ar hyn o bryd. Ni ddylent gael eu dylanwadu'n ormodol gan gynlluniau ar gyfer gwella a baratowyd yn ddiweddar nad ydynt wedi cael eu gweithredu eto, na phenodiad diweddar staff neu ysgolion i'r bartneriaeth. Yn yr achosion hyn, mae hyn oherwydd na fydd y gwelliannau wedi cael effaith eto, a rhaid i arolygwyr farnu deilliannau yn hytrach na bwriadau damcaniaethol neu dda.

Dylai trafodaethau tîm ystyried unrhyw ffactorau lliniaru i sicrhau dilysrwydd a dibynadwyedd y barnau cyn dod i benderfyniad fod partneriaeth yn achosi pryder sylweddol.

**Gweithdrefnau i'w dilyn os bernir bod y bartneriaeth yn achosi pryder sylweddol**

Os bernir bod y bartneriaeth yn achosi pryder sylweddol, dylai'r arolygydd cofnodol gymryd y camau canlynol:

- ffonio a rhoi gwybod i'r cydlynydd arolygu priodol yn Estyn cyn dweud wrth y bartneriaeth am y farn – dylai hyn ddigwydd cyn yr adborth terfynol i'r bartneriaeth
- rhoi gwybod i'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol neu'r Cyfarwyddwr Strategol am y farn (a fydd, yn ei dro, yn rhoi gwybod i PAEM)
- dweud wrth uwch arweinwyr y bartneriaeth ar ddiwedd yr arolygiad fod y tîm o'r farn fod y bartneriaeth yn achosi pryder sylweddol
- gofyn i uwch arweinwyr y bartneriaeth roi gwybod i'r Is-Ganghellor/Is-Gangellorion y brifysgol / prifysgolion am y canlyniad hwn.

O fewn pum niwrnod o ddiwedd yr arolygiad, bydd yr arolygydd cofnodol:

- yn llenwi adran berthnasol y ffurflen farnau adrodd (FfF adrodd)

- yn rhoi'r FfF adrodd gyflawn yn yr adran dogfennau arolygu yn yr YAR
- yn rhoi gwybod i'r CydAr dynodedig trwy neges e-bost, ac yn anfon copi o'r neges i'r mewnflwch CydAr, sef ic@estyn.llyw.cymru

Bydd PAEM, neu AEM ar ran PAEM, yn craffu ar waith y tîm arolygu i wirio'r farn. Dylai'r arolygydd cofnodol sicrhau bod yr holl dystiolaeth a gesglir yn ystod y broses arolygu ar gael i graffu arni. Mae gan PAEM y pŵer i alw am unrhyw wybodaeth sydd ei hangen.

Os na fydd PAEM yn cytuno â barn yr arolygydd cofnodol, bydd y rhesymau'n cael eu hesbonio, a byddant yn cael cyfle i drafod penderfyniad PAEM a diwygio'r adroddiad a'r crynodeb trwy ddileu'r farn fod y bartneriaeth yn achosi pryder.

Ar ôl cwblhau'r broses herio a safoni mewnol yn briodol i sicrhau'r barnau, bydd PAEM yn hysbysu Gweinidogion Cymru fod y bartneriaeth yn achosi pryder sylweddol. Mewn amgylchiadau eithriadol, gallai Estyn aros nes bydd y bartneriaeth wedi ymateb i gam gwirio cywirdeb ffeithiol y broses.

**Adroddiadau a chrynodebau ar gyfer partneriaethau sy'n achosi pryder sylweddol**

Rhaid i'r arolygydd cofnodol ei gwneud yn glir yn sail y dystiolaeth nad yw'r bartneriaeth yn sicrhau darpariaeth o safon dderbyniol, yn eu barn nhw, ac nad oes gan uwch arweinwyr y gallu i sicrhau'r gwelliant angenrheidiol, felly mae'r bartneriaeth yn achosi pryder sylweddol. Hefyd, rhaid iddynt wneud yn glir beth yw'r prif ddiffygion a arweiniodd at y farn honno.

Mae gweithdrefnau CGA ar gyfer achredu, monitro cydymffurfiaeth rhaglenni achrededig yn erbyn meini prawf Llywodraeth Cymru neu dynnu achrediad yn ôl yn wahanol i'r trefniadau ar gyfer arolygu dysgu ac ansawdd y ddarpariaeth. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, lle mae arolygwyr yn nodi diffygion difrifol yn eu gwerthusiadau ac yn barnu bod y bartneriaeth yn achosi pryder sylweddol, mae hefyd yn debygol nad yw'n bodloni gofynion achredu. Yn yr achos hwn, bydd ailarolygiad a gweithdrefnau CGA ar gyfer mynd i'r afael â diffyg cydymffurfio â'r meini prawf achredu yn bwrw ymlaen yn gyfochrog â hyn.

## 2. Ymgysylltu Manylach gan Estyn

**Arweiniad i arolygwyr am bartneriaethau y gallai fod angen ymgysylltu manylach arnynt**

Bernir bod partneriaethau y mae angen ymgysylltu manylach arnynt yn gyffredinol yn darparu safon ddigonol o addysg a hyfforddiant, o leiaf. Fodd bynnag, gallai fod yna fwy o fân agweddau y mae angen eu gwella. Mae ymgysylltu manylach yn broses gefnogol ar gyfer partneriaethau sydd angen cymorth ychwanegol â'u taith wella.

Gallai'r canlynol fod yn rhesymau posibl pam mae angen ymgysylltu manylach ar bartneriaeth:

- Mae myfyrwyr yn gwneud cynnydd da, ar y cyfan; fodd bynnag, gallai cyfran fach ohonynt wneud cynnydd digonol yn unig, neu nid ydynt yn gwneud cynnydd digonol mewn ychydig o feysydd o'u medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth

- Nid yw ychydig o agweddau ar y ddarpariaeth yn galluogi myfyrwyr i fodloni'r safonau ar gyfer SAC yn llwyddiannus
- Mae boddhad myfyrwyr ag agweddau ar y ddarpariaeth yn isel
- Mae cyfran fach o'r addysgu neu'r mentora yn aneffeithiol
- Gwneir cynnydd araf i fynd i'r afael â mân agweddau ar gyfer gwella a nodwyd yn ystod arolygiadau blaenorol, neu drwy weithgarwch mewnol neu allanol arall
- Mae angen gwella ychydig o agweddau ar arweinyddiaeth, ond nid i'r graddau fod hyn yn cael effaith sylweddol ar ddeilliannau

**Gweithdrefnau i'w dilyn os oes angen ymgysylltu manylach gan Estyn ar y bartneriaeth**

Os bernir bod angen ymgysylltu manylach ar y bartneriaeth, dylai'r arolygydd cofnodol (ACof):

- ffonio a rhoi gwybod i'r cyfarwyddwr cynorthwyol a'r cydlynydd arolygu priodol yn Estyn cyn dweud wrth y bartneriaeth beth yw'r farn, erbyn diwedd yr arolygiad, fan bellaf
- dweud wrth arweinwyr y bartneriaeth ar ddiwedd yr arolygiad fod y tîm wedi dod i'r farn fod angen ymgysylltu manylach ar y bartneriaeth

Bydd PAEM, neu AEM ar ran PAEM, yn craffu ar y dystiolaeth arolygu (yn yr YAR) i sicrhau ansawdd gwerthusiadau'r tîm. Mae gan PAEM y pŵer i alw am unrhyw wybodaeth bellach sydd ei hangen.

Yn amodol ar safoni, bydd yr arolygiaeth yn ysgrifennu llythyr at y bartneriaeth, ac yn anfon copi i CGA, yn nodi'r meysydd y mae angen eu gwella.

Bydd Estyn yn gweithio â'r bartneriaeth i gefnogi unrhyw gynllunio gwelliant. Caiff union natur y cymorth hwn ei chynllunio mewn ffordd deilwredig i gyfateb i amgylchiadau'r bartneriaeth.

Bydd Estyn yn cysylltu â CGA i drafod unrhyw ddiffyg cydymffurfio posibl a nodwyd yn ystod yr arolygiad. Os bydd unrhyw ddiffyg cydymffurfio, bydd Estyn yn cydweithio â CGA i leihau unrhyw faich neu ddyblygu.

**Hyrwyddo rhagoriaeth mewn addysg gychwynnol athrawon**

Mae Estyn yn awyddus i hyrwyddo rhagoriaeth mewn addysg gychwynnol athrawon. Os yw'r tîm arolygu wedi nodi cryfderau sylweddol mewn deilliannau, darpariaeth neu arweinyddiaeth a rheolaeth, yna bydd Estyn yn gweithio gyda'r bartneriaeth i rannu ei waith gyda phartneriaethau eraill addysg gychwynnol athrawon.